Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Cyfarthfa Dental Care
# Dyddiad y gweithgarwch: 18 Awst 2022

Dyddiad cyhoeddi: 6 Hydref 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan fyddant wedi'u cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk




ISBN Digidol 978-1-80364-947-4

© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o bractis Cyfarthfa Dental Care fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis deintyddol hwn wedi'i leoli ym Merthyr Tudful, De Cymru, ac yn cynnig gofal deintyddol GIG a phreifat.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn giplun o'r safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol i sicrhau gweithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a'r unigolyn cyfrifol ar 18/8/2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych chi'n sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych chi'n diwallu anghenion y cleifion Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Yr asesiad risg amgylcheddol diweddaraf

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom adolygu'r asesiad risg amgylcheddol a chadarnhau ei fod wedi'i gwblhau'n ddigonol a'i ddyddio.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y newidiadau a wnaed i'r practis er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn y mannau cymunol a'r ystafelloedd triniaeth. Mae arwyddion cadw pellter cymdeithasol a sticeri llawr yn cael eu harddangos yn y man aros ac mae'r seddi wedi'u tynnu i ganiatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol. Gofynnir i'r cleifion wisgo masgiau i'w hapwyntiadau o hyd oni bai eu bod wedi'u heithrio'n feddygol. Dywedodd y staff wrthym hefyd y bydd llawer o gleifion yn dal i ddewis aros yn eu ceir i'r staff eu ffonio i fynychu eu hapwyntiad, yn hytrach na defnyddio'r ystafell aros.

Dywedodd y staff wrthym fod gan bob ystafell driniaeth yr offer ar gyfer cynnal gweithdrefnau cynhyrchu aerosol.[1] Mae bysellfyrddau a llygod gwrth-ddŵr wedi'u gosod ym mhob un, a gosodir bag plastig dros sgrin y cyfrifiadur fel y gellir ei glanhau'n drylwyr. Mae pob ystafell wedi'i chlirio rhag annibendod.

Dywedwyd wrthym fod nifer o staff y practis yn siarad Cymraeg yn rhugl a bod rhai eraill yn dysgu ar hyn o bryd. Mae pob darn o wybodaeth gan y bwrdd iechyd a Llywodraeth Cymru yn cael ei arddangos yn ddwyieithog a rhoddodd y staff wybod i ni am gynlluniau i wneud yr holl wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedodd y staff wrthym mai dim ond yn Saesneg y mae gwybodaeth cleifion ar gael ar hyn o bryd. Nid oes gan y practis neges peiriant ateb ddwyieithog ychwaith. Gwnaethom argymell bod y practis yn gweithredu pob un o'r rhain er mwyn gwella'r gwasanaeth dwyieithog.

[1] Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr aer (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r aer neu drwy ddefnynnau.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus mae'n rheoli'r risg o heintiau er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Amserlenni glanhau'r practis
- Polisi glanhau
- Archwiliad dihalogi diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Cofnodion gwiriadau dyddiol pob awtoclaf yn ystod y pythefnos diwethaf
- Gwiriadau dyddiol ar gyfer y bath uwchsain a'r diheintydd golchwr (pythefnos diwethaf)

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd amserlenni a chofnodion glanhau'r practis ar gyfer dihalogi offerynnau ac offer y practis, ynghyd â chopïau o gofnodion uwchsonig a gwiriadau dyddiol o'r awtoclaf a ddarparwyd, yn drwyadl ac wedi'u cwblhau.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar wisgo a diosg[2] cyfarpar diogelu personol a diogelwch cleifion yn ystod COVID-19. Arddangosir posteri gwisgo a diosg hefyd ac mae'r staff yn monitro ei gilydd i sicrhau bod cyfarpar diogelu personol yn cael ei wisgo'n gywir.

Hysbyswyd y staff hefyd am y broses a gyflwynwyd i drin y cleifion sydd wedi cael prawf positif am COVID-19 yn ddiogel. Os bydd angen apwyntiad ar gleifion o'r fath, bydd y staff yn trefnu iddynt gael eu gweld ar ddiwedd y dydd, gan sicrhau bod unrhyw staff a chleifion ychwanegol wedi gadael. Bydd y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn a byddant hefyd yn cynnal profion llif unffordd yn y dyddiau ar ôl yr apwyntiad.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis a phractisau eraill yn y clwstwr system rheoli stoc ar waith i fonitro lefelau cyfarpar diogelu personol. Mae unigolyn enwebedig o fewn y practis yn monitro lefelau'r stoc a bydd yn hysbysu rheolwr y practis os oes angen archebu mwy. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod wedi rhannu stoc cyfarpar diogelu personol rhwng practisau pan oedd angen.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[2] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd y maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas yn eu rolau a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Y datganiad o ddiben
- Y daflen gwybodaeth i gleifion
- Adroddiad Rheoliad 23
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad o gardiau cofnod
- Y polisi cydsyniad gwybodus
- Y polisi COVID-19
- Cynllun parhad busnes
- Cofnod o'r hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom adolygu'r cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff. Roedd yr holl hyfforddiant gorfodol wedi'i gwblhau ac yn gyfredol.

Fe'n hysbyswyd bod unrhyw ganllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu cyflwyno i'r staff drwy e-bost ac yn ystod cyfarfodydd dyddiol i'r staff. Mae hefyd gan y staff sgwrs WhatsApp a ddefnyddir i drafod unrhyw ddiweddariadau i ganllawiau.

Eglurwyd y broses o wirio offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys. Mae aelod o staff enwebedig yn gwirio'r diffibriliwr a'r ocsigen yn ddyddiol, ac yn gwirio'r dyddiadau dod i ben ar y feddyginiaeth a ddefnyddir mewn achos brys yn wythnosol.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben[3] a'r daflen gwybodaeth i gleifion,[4] a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[3] Ystyr "datganiad o ddiben" ("statement of purpose") yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â Rheoliad 5(1) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a'r atodlen gysylltiedig.
[4] Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd

- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Cyfarthfa Dental Care

Dyddiad y gweithgarwch: 18 Awst 2022

Mae’r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy’n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae’n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rydym yn mynnu bod y staff yn darparu gwybodaeth i gleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg ac ystyried creu neges peiriant ateb ddwyieithog. Bydd hyn yn gwella gallu'r practis i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 13 (1)(a) Safonau Iechyd a Gofal – 3.2 11 Cyfathrebu'n effeithiol | Ar hyn o bryd, rydym yn arddangos gwybodaeth gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys ein gweithdrefn gwyno, safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a thaliadau’r GIG. Rydym wedi cysylltu â'n darparwr ffôn gyda sgript peiriant ateb newydd. Mae hyn yn cynnwys bod ein neges peiriant ateb yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Paul John Jones | Tachwedd 2022 |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras): Paul John Jones**

**Swydd: Prif Ddeintydd**

**Dyddiad: 20 Medi 2022**

# Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad:

Ward/Adran/Gwasanaeth
(dilëer fel y bo'n berthnasol):

Dyddiad y gweithgarwch:

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rydym yn mynnu bod y staff yn darparu gwybodaeth i gleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg ac ystyried creu neges peiriant ateb ddwyieithog. Bydd hyn yn gwella gallu'r practis i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. | Rheoliad 13 (1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 3.2 | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfathrebu'n effeithiol | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**